# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 29 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(49)

**Ethol Dirprwy Lywydd dros dro**

Cafodd Rhodri Glyn Thomas ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf.

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Dechreuodd yr eitem am 14.16.

Gofynnwyd cwestiynau 1-8 a 10. Tynnwyd cwestiwn 9 yn ôl.

**3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.04.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4924 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd mewnfuddsoddiad i economi Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Fewnfuddsoddiad yng Nghymru; a

3. Yn cymeradwyo sylwadau'r Athro Brian Morgan a ddywedodd ei bod yn debyg y bydd cau'r WDA a diddymu 'brand WDA' yn cael ei gofio fel y penderfyniad polisi gwaethaf a wnaed yng Nghymru mewn cof.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, rhoi "cymharol" ar ôl "Yn nodi pwysigrwydd…"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 16 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru yn well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4924 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd cymharol mewnfuddsoddiad i economi Cymru;

2. Yn cydnabod bod angen i Gymru ddod yn lleoliad mwy deniadol i fuddsoddi;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar agweddau o fuddsoddi nad ydynt yn or-ddibynnol ar gefnogaeth uniongyrchol i fusnesau unigol; a

4. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau gwell seilwaith a lefelau uwch o sgiliau, yn ogystal â marchnata Cymru yn well, er mwyn denu rhagor o fewnfuddsoddiad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.11.

**NDM4925 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth adroddiadau diweddar am oedi mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau cadeiriau olwyn ac yn cydnabod yr effaith negyddol y gall y rhain eu cael ar ansawdd bywyd y rheiny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn;

2. Yn croesawu'r 'ymchwiliad undydd ar wasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru' sydd i'w gynnal gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) rhoi mwy o flaenoriaeth i fynd i'r afael ag oedi o ran uwchraddio ac atgyweirio, ynghyd â darparu cadair olwyn yn y lle cyntaf, yn enwedig i blant; a

b) darparu diweddariad cynhwysfawr am y cynnydd at wella gwasanaethau cadeiriau olwyn ers Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2010.

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.02.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4926 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir i iechyd y wlad gan rwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y GIG yn gweithio gyda Chanolfannau Arbenigol rhanbarthol;

2. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi methu â chynnal ffydd y cyhoedd a chlinigwyr; a

3. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:

a) cynnal rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth i sicrhau bod dinasyddion Cymru o fewn pellter diogel i'w gwasanaethau achub bywydau; a

b) cyfarwyddo Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Powys i weithio ar draws ffiniau gweinyddol i sicrhau bod anghenion meddygol a llawfeddygol pobl canolbarth Cymru yn cael eu diwallu'n ddiogel ac yn ddigonol gan Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 27 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl "Dda" a rhoi yn ei le:

"yn gweithio'n arloesol ac yn eang, er bod ganddo waith i'w wneud eto, i ymgysylltu ac egluro dyfodol gwasanaethau'r GIG i'r cyhoedd a chlinigwyr yn ei ardal leol; a"

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 24 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 3 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

3. Yn nodi ac yn llongyfarch y gwaith gwerthfawr a wneir gan 'The aBer Group' o ran cryfhau cyfranogiad y cyhoedd yn nyfodol Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais; a

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4926 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir i iechyd y wlad gan rwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y GIG yn gweithio gyda Chanolfannau Arbenigol rhanbarthol;

2. Yn nodi bod Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gweithio'n arloesol ac yn eang, er bod ganddo waith i'w wneud eto, i ymgysylltu ac egluro dyfodol gwasanaethau'r GIG i'r cyhoedd a chlinigwyr yn ei ardal leol;

3. Yn nodi ac yn llongyfarch y gwaith gwerthfawr a wneir gan 'The aBer Group' o ran cryfhau cyfranogiad y cyhoedd yn nyfodol Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:

a) cynnal rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Dosbarth i sicrhau bod dinasyddion Cymru o fewn pellter diogel i'w gwasanaethau achub bywydau; a

b) cyfarwyddo Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Powys i weithio ar draws ffiniau gweinyddol i sicrhau bod anghenion meddygol a llawfeddygol pobl canolbarth Cymru yn cael eu diwallu'n ddiogel ac yn ddigonol gan Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Bronglais.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 24 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.07.

**6. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.13.

**NDM4923 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):**

Cuts Watch Cymru

Bydd y ddadl hon yn tynnu sylw at waith Cuts Watch Cymru, sef rhwydwaith o nifer o fudiadau trydydd sector yng Nghymru, sy'n dilyn ac yn olrhain effaith toriadau i fudd-daliadau lles yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:35.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 6 Mawrth 2012**